

# AMAETHYDDIAETH A GOFAL ANIFEILIAID

**A yw natur a'r amgylchedd yn bwysig i chi?  
Efallai bod gofalu am anifeiliaid yn agos at eich calon?**

Mae'r sector amaethyddiaeth yn chwarae rôl allweddol yn economi DU gyda digonedd o swyddi yn y maes hwn, o aredig a chynhaeaf cynydu, magu neu ofalu am anifeiliaid, rheoli amgylcheddau cefn gwlad a darparu gwersi reidio.

Cymerwch olwg ar y gwahanol lwybrau gyrfaedd y gallech chi eu dilyn:

## Gofal Anifeiliaid

Os ydych wrth eich bodd ag anifeiliaid, pam na wnewch yrfa o hynny? O redeg cathdy, gweithio gydag ymlusgiaid neu hyfforddi ceffylau; mae gofal anifeiliaid yn ymwneud â thrin, goruchwylio a gofalu am anifeiliaid o bob maint, o anifeiliaid anwes domestig bychain i fywyd gwyllt.

## Milfeddygol


Hyfforddych fel nyrs filfeddygol, yn gofalu am anifeiliaid bob awr o'r dydd. Hefyd, gallech astudio ymhellach i ddod yn filfeddyg.

## Ceffylau

Os ydych wrth eich bodd â cheffylau ac nid oes gwahaniaeth gennych fod allan ym mhob tywydd, yna dyma'r yrfa ar eich cyfer chi! Gafaelwch yn y careiau ffrwyn a dysgwch sut i roi gwersi i eraill neu carlamwch ymlaen i reoli digwyddiadau yn yr arena. Boed y naill ffordd neu'r llall, gallwch gael swydd yn gwneud yr hyn sy'n agos at eich calon.

## Amaethyddiaeth a Chadwraeth

Maes sy'n ehangu yn y DU! Mae amaethyddiaeth yn ymwneud â ffermydd, llaethdai ac 'amaethfusnesau' - cwmnïau sy'n cyflenwi'r diwydiant â phorthiant, gwrteithiau a pheiriannau fferm. Nid yn unig mae rheoli coetiroedd neu gadwraeth amgylcheddol yn arbed y blaned, maent hefyd yn darparu datrysiadau am amgylchedd cynaliadwy, iach.



**£21,164  
£11.00/AWR**


**CYFARTALEDD  
CYFLOGAU  
NODWEDDIADOL YN  
Y DIWYDIANT HWNY**

**CYFANSWM Y  
SWYDDI YN Y  
DIWYDIANT HWN**

**7,071 CYMRU  
126,457 DU**



**TRWY DDATBLYGU  
EICH SGILIAU MEWN  
GOFAL ANIFEILIAID  
A MILFEDDYGAETH,  
GALLECH CHI FOD Y  
'SUPERVET' NESAF!**



(ffynhonnell  
EMSI Q1 2018  
Dataset/Gyrfa  
Cymru)

## Dolenni Defnyddiol

[www.lantra.co.uk](http://www.lantra.co.uk) Lantra, y corff dyfarnu blaenllaw ar gyfer hyfforddiant tir ac amgylcheddol  
[www.rspca.org.uk](http://www.rspca.org.uk) RSPCA, Royal Society for the Prevention of Cruelty to Animals  
[www.forestry.gov.uk](http://www.forestry.gov.uk) Y Comisiwn Coedwigaeth

## Beth y caf i ei astudio, ac ymhle?

	Hyd	B
Astudiaethau Tir - Amaethyddiaeth, Anifeiliaid neu Cheffylau - Lefel 1	1 Flwyddyn	✓
Gofal Anifeiliaid - Lefel 2	1 Flwyddyn	✓
Rheoli Anifeiliaid (Diploma Estynedig) - Lefel 3	2 Flynedd	✓
Gofal Ceffylau - Lefel 2	1 Flwyddyn	✓
Rheoli Ceffylau (Diploma Estynedig) - Lefel 3	2 Flynedd	✓

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk) | [admissions@colegwent.ac.uk](mailto:admissions@colegwent.ac.uk) | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)



Campus key: B - Campws Brynbuga

